Page

# Sut rydym yn helpu i newid bywydau: stori Tom

17/05/2019



Mae Tilly y ci yn helpu Tom Jenkin i daclo ei boenau meddwl. Ond cwrs ?yna a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol a roddodd yr hyder iddo anelu am yrfa fel milfeddyg.

“Pan ddechreuais yn yr ysgol uwchradd, roeddwn yn berson nerfus iawn ac yn ei chael hi'n anodd gwneud ffrindiau.

“Roedd fy mhoenau meddwl yn gwneud i mi deimlo'n eithaf unig ac roedd yn effeithio ar fy ngwaith ar y dechrau.”

Roedd Tom, o dde Cymru, yn gweld bywyd yn anodd. Ond yna fe ddaeth ei fam â Llamgi (Springer Spaniel) o gartref c?n bach adref pan oedd ym mlwyddyn saith yn yr ysgol, ac fe ddechreuodd weld llygedyn o obaith.

> "Trodd fy nghi fel math o gefnogwr personol. Roedd hi wir yn rhoi’r hyder i mi yn yr ysgol ac roeddwn yn gallu cysylltu fy nheimladau â'm ci."

Fe helpodd Tilly y Ci Tom i chwilio am brofiad gwaith.




## Cymryd cyfle

Drwy hap a damwain, ar ddiwrnod allan gyda'i deulu i Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ger Caerdydd, gwelodd Tom hysbyseb am gwrs ?yna undydd.

Mae'r Amgueddfa sy’n arddangos bywyd, diwylliant a phensaernïaeth Gymreig wedi derbyn mwy na £11miliwn o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Ail-agorodd y llynedd ar ôl ailddatblygiad enfawr, ac mae bellach yn cynnig gwaith cwrs ymarferol wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol hefyd.

"Cefais fy nysgu ar y cwrs gan Emma y bugail, fe wnaethon ni dreulio’r diwrnod cyfan gyda'n gilydd," meddai Tom.

> "Roedd y profiad yn cadarnhau fy mod wir eisiau bod yn filfeddyg neu wneud rhywbeth gydag anifeiliaid, felly roedd gen i fwy o hyder."

"Roeddwn i'n meddwl y byddai angen i mi ad-dalu fy nyled i'r deyrnas anifeiliaid oherwydd helpodd Tilly mi drwy gydol fy mywyd, drwy fy helpu i ymdopi â'r straen, felly roeddwn i'n meddwl mai'r proffesiwn gorau i helpu anifeiliaid fyddai bod yn filfeddyg."

## Y camau cyntaf at yrfa gyffrous



Fe wnaeth Tom fwynhau ei diwrnod gymaint fel yr ysbrydolwyd ef i ymgeisio a mynd i'r brifysgol gan ei osod ar lwybr tuag at yrfa gyffrous.

Tra bod ei deulu’n falch, mae'n credu y gallai ei ffrind ffyddlon deimlo'n wahanol am ei fod yn gadael:

"Rwy'n meddwl y bod Tilly wir eisiau i mi aros adref a rhoi fy holl sylw iddi hi drwy'r dydd ... ond rwy’n si?r ei bod yn hapus y byddaf yn gallu helpu c?n eraill fel hi, ond mae hi bach yn eiddigeddus. "

Gwyliwch stori Tom ar wefan y Loteri Genedlaethol.